Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xxxviii. RHAGFYR, 1938 Rhif 12.

Shangri-la.

Y mae'r Nadolig yn ymyl, ac estyn Yr Ymofynnydd i'w holl ddarllenwyr ddymuniadau'r tymor. Rhaid cyfaddef fod y byd, fel y darlunir ef yn y papurau dyddiol, mewn anghytgord hollol â chysylltiadau santaidd y Nadolig—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion o ewyllys da." Rhyw ysbryd arall, ysbryd casineb, ac erlid, ac ymladd a welir uchaf ei ben heddiw. Cyhoeddir yn blaen gan ffeithiau'r sefyllfa mai'r drwg sydd yn gorchfygu. Militariaeth, gormes yr unbenaethiaid, a thyranniaeth sy'n ennill eu hamcanion heddiw.

Deffroir cydwybod y ddynoliaeth gan driniaeth anwar yr Iddewon yn y dyddiau hyn yn yr Almaen. Y mae'r ffeithiau'n hysbys, ac ni bydd angen eu hail-adrodd yma. Digon ydyw dweud na welwyd yn Ewrop oddiar ddyddiau tywyll yr oesoedd canol y fath olygfeydd erchyll. O Sbaen clywir cri plant bychain yn marw o newyn. Yn China bell, ac ym Mhalesteina—y tir cysegredig hwnnw sy'n gefndir i'r Nadolig—fe glywir sŵn y brwydrau. Y mae'r ffaith fod *refugee problem* yn ein byd heddiw'n staen ar ein gwareiddiad, ac nid yw'n syndod i un Esgob ddweud rhai dyddiau'n ôl yr edrychai ef ar yr erchyllterau hyn fel amlygiad fod meddwl y ddynoliaeth yn sincio'n ôl i farbareiddiwch.

Yn ddiweddar darllenwn nofel James Hilton—"Yr Orwel Goll". Hoffwn gyfeirio at saerniaeth ryfedd y nofel, ac adrodd ei stori ddieithr, ond digon yn awr fydd sôn am amcan yr awdur. Y mae'r hanesyn yn ddameg dra phwysig. Pregethu y mae'r ysgrifennydd, ac fe hawlia ein hystyriaeth fanylaf.

Arwr y stori ydyw Hugh Conway, swyddog dan Lywodraeth Prydain yn China, a dygir ef yng nghwmni tri arall drwy drais i fynachlog mewn dyffryn ffrwythlon rywle ynghanol mynyddoedd Kuen Lun rhwng Tibet a China. Enw y wlad ramantus ydyw Shangri-la, ond fe ofala un o swyddogion y wlad ddweud wrth Conway na cheir mo'r enw hwnnw ar fap o'r byd. Yno y ceid holl

drysorau celfyddyd a llenyddiaeth. Yno hefyd y ceid holl fanteision gwareiddiad. Llywodraethwyr y wlad ydyw Perrault—dyn a gafodd drwy ei hunanfeistrolaeth brydles hirach na'r cyffredin ar fywyd. Taniwyd enaid Perrault gan weledigaeth, ac yn awr ar derfyn ei oes y mae am i Conway gysegru ei fywyd i gynnal y weledigaeth honno a chario ymlaen gyfrinachau Shangri-la. Un o ddarnau dwysaf llenyddiaeth ddiweddar ydyw araith yr hen lama.

Dywed iddo weld y cenhedloedd yn cynhyddu, nid eu doethineb ond eu trachwantau llwgr a'u hawydd i ddinistrio. Gwelodd ddyfod gallu peiriannol fel y gallai un dyn arfog drechu byddin gyfan un o'r hen frenhinoedd gynt. Gwelai ef yn awr amser pan fyddai dynion yn ymfalchio'n y grefft o ladd ei gilydd, ac yn creu cymaint o derfysg yn y byd nes y bo popeth sy'n wir werthfawr mewn perigl, pob llyfr, pob darlun, pob harmoni, pob trysor a gasglwyd yn ystod dwy fil o flynyddoedd,—y gwan, y coeth, y diamddiffyn—byddai popeth yn mynd ar goll. "Beth ydyw opinoynau dynion yn wyneb haearn a dur?" "Yma," meddai'r henwr, "y safwn ni gyda'n llyfrau, a'n miwsig a'n myfyrdodau, gan gadw gafael ar geinder bregus oes sydd ar dranc, a cheisio doethineb o'r fath y bydd dynion yn anghenus ohono pan fo eu nwydau drwg wedi diffodd . . . Yna, fy mab, pan fo'r cedyrn wedi difetha ei gilydd, y gwireddir y foeseg Gristnogol, a'r gwâr a fydd yn etifeddu'r ddaear . . . Nid oes ddiogelwch mewn arfau. Bydd y storm yn chwythu, a sethrir dan draed holl flodau gwrtaith . . . Ac wedi hynny, drwy oes hir y difrod anghyfannedd . . . chwi fydd yn cadw yn iach berarogl ein hanes . . . Ymhellach y mae fy ngwelediad yn gwanhau, ond gwelaf yn y pellter draw fyd newydd yn symud ymhlith y dadfeilion . . . yn chwilio am drysorau coll . . . Ond byddant yma, fy mab, . . . y tu ôl i'r mynyddoedd, wedi eu cadw megis trwy wyrth ar gyfer y Deffro newydd . . ."

Dameg ydyw'r hanes. Ni cheisiaf ei esbonio. Hwyrach fod y swyddog yn gywir pan ddywed nad ydyw enw Shangri-la ar y map. Er hynny, y mae yn nwfn calon y ddynoliaeth, ac yn ei meysydd ffrwythlon hi y meithrinir y gobaith sy'n mynd i achub y byd. Shangri-la ac ysbryd y Nadolig un ydynt.

Daw i'n cof y dyddiau hyn draddodiad yr Eglwys fore am Herod *Fawr*—rhyw ymgorfforiad o bwerau'r drygioni—yn ceisio dinistrio bywyd rhyw faban bychan ym Methlehem, ond llefarwyd y gair diwethaf ar yr olygfa honno mewn pregeth a draddodwyd ar fynydd yng Ngalilea. Dyma siartr Teyrnas Nefoedd ar y ddaear. "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear dangnefedd *ymhlith dynion o ewyllys da.*"

Heddiw y mae Hitler ar yr orsedd, a Niemoeller yn y carchar, ond fe wyddom mai Niemoeller sydd yn iawn. A ydym yn pryderu am fod pwerau anghyfiawnder a drygioni'n cael yr oruchafiaeth? Cofiwn na lefarwyd eto'r gair diwethaf.

Davis Castellhywel fel Pregethwr.

Gan y Parch. Simon Jones, B.A., Gŵyr.

Fel y crybwyllwyd yn Yr Ymofynnydd (mis Hydref) cyfeiriodd y Parch. Jubilee Young yng Nghymanfa'r Bedyddwyr yng Nghaernarfon mis Medi at Ddavis Castellhywel yn ei araith ar Christmas Evans. Darlledwyd yr araith hon o orsaf Cymru, a rhoes dramgwydd i lawer o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd sy'n gyfarwydd a hanes y gwr enwog hwnnw. Ar ôl sylwi fod Christmas Evans wedi ymuno'n ei ieuenctid a'r " Presbyteriaid Arminaidd yn Llwynrhydowen " aeth Mr. Young ymlaen i ddweud y dylent, mae'n debyg, ddiolch i Davis Castellhywel am roddi chwe mis o ysgol (ac ychwanegwn ei bod yn rhad) i Christmas, ond nad oedd Davis fawr o bregethwr. Pan bregethai ef yr oedd Christmas y gwas yn eistedd a'i ben rhwng ei liniau. Ni allent ddychmygu amdano'n ymddwyn felly pan wrandawai ar Thomas Aberduar. Yr oedd un o ddiaconiaid Davis hefyd yn dweud ar ôl clywed Christmas yn pregethu [ei bregeth gyntaf, ac un fenthyg], " Gresyn na fuasai Davis ni'n ei glywed. Buasai arno gywilydd amdano'i hun."

Ni ellir taflu ystoriau o'r fath yna ar glustiau pobl na wyddant gwell heb lychwino dawn a chofiant un o ddiwyllwyr pennaf Cymru. Dichon na fwriadai Mr. Young fychanu Davis yng nghlyw'r cyhoedd, ac mai ergyd ar draws ydoedd ar fympwy'r foment, nad ymddangosai'n y llawysgrif. Aflywodraethus iawn ac anodd ei ddofi ydyw tafod siaradwr ffraeth, ac yn fynych yn llawn gwenwyn marwol. Oni fwriadai anfri, beiwn Mr. Young am na ddywedodd yr ystoriau'n gyflawn, os oedd rhaid eu dweud o gwbl, er mwyn difyrru'r Gymanfa a mawrhau ei wron. Canys datgan yr hanes—os hanes hefyd—am Christmas a'i ben rhwng ei liniau'n gwrando ar Ddavis iddo adrodd y bregeth o'i *gof* yn y prynhawn ar fanc Castellhywel. Tystiolaeth, beth bynnag, ydyw hynny fod y bregeth wedi hawlio sylw. Yn wir, y mae'r ystum yn fynych yn ddangoseg o'r gwrandawiad mwyaf astud. Ond nid felly y cyfieithai Mr. Young ef, a barnu wrth dôn ei lais.

Nid amherthynol chwaith y ffaith mai ewythr i Christmas Evans oedd y diacon y sonir amdano, ac mai Christmas ei hun a ddywedodd y stori. Y mae anhebygolrwydd y stori ar yr wyneb. Gwas fferm, heb fod yn ugain oed, na fedrai ddarllen ei Feibl hyd rai wythnosau'n flaenorol, yn cael yr oruchafiaeth ar un yr oedd ei glod drwy'r wlad ! Ond y mae'r stori'n nodweddiadol iawn o Christmas, ac anghenraid sydd arnom i sôn am ei wendidau er mwyn ei hegluro. Hoffai daflu rhyw elfen wyrthiol dros ddig-

wyddiadau bore'i oes, ac yr oedd ei ddychymyg mor fyw fel y tueddid ef gan drachwant ei ddrychfeddyliau i gymhwyso ffeithiau —hyd yn oed ffeithiau'r Beibl,—fel na ellid adnabod yr Ysgrythur ei hun ar ei enau. Mympwy amlwg a berthynai iddo ydoedd rhyw awydd i fod yn ben. Ni allai oddef *rival*, a dywedir (Cymru Bywgraffyddol, tud. 517) mai " lle " y pregethwr cyntaf, pwy bynnag ydoedd, yn unrhyw oedfa y byddai Christmas yn pregethu ynddi, ydoedd bod yn gymharol fyr fel y gallai ' Esgob Môn ' gael y llwyfan. Felly, ni ellir disgwyl oddiwrtho wir werthfawrogiad o bregethwyr ei oes na gorofalwch i wahaniaethu rhwng *fact* a *fiction* hyd yn oed yn hanes ei fywyd ei hun. Yn ei ysgrifau yn Yr Ymofynnydd (Gorffennaf ac Awst 1938) rhydd yr Athro M. B. Owen fwy nag un engrafft o hyn.

Gyda llaw, y mae'r Athro'n camsynied wrth amau Christmas am sefyllfa fferm Cwmtywyll. Yr oedd lle o'r enw yn y ddeunawfed ganrif ar ochr y bryn y tu arall i afon Cletwr o Alltyrodyn ar y ffordd oddiyno i Fryngolau.[1] Y mae rhai sy'n byw heddiw'n y gymdogaeth yn cofio adfeilion yr hen dŷ.[2]

Y mae'n anffodus, a dweud y lleiaf, fod haneswyr wedi derbyn dychmygion Christmas fel hanes.

Dywed yr Athro Owen " nad oedd pregethu David Davis, Castell Hywel, yn boblogaidd am fod ei lais a'i draddodiad, er gwaethaf ei duedd i wylio yn y pulpud, yn ei erbyn ". Ar ba sail y dywed hyn, ni wn. O bosibl, ar sail y braslun yn ' *Hanes Plwyf Llandyssul* ' (1896) gan y Parch. W. J. Davies, lle y darllenir—

> " Nid oedd ganddo lais peraidd, fel na allai swyno ei gynulleidfaoedd ag ef, oblegyd pa fwyaf y teimlad nerth yr hyn a draethai—a theimlai gymaint nes yr wylai y dagrau yn hidl,—codai *bitch* ei lais nes yr oedd yn wich anhyfryd." (tud. 105).

Nid yw Mr. Davies yn rhoddi ei awdurdodau yn un rhan o'r llyfr,—diffyg mawr mewn llyfr da, ond credwn, oddiwrth dystiolaeth geiriau, mai tad a mam disgrifiad Mr. Davies ydyw erthygl a ymddangosodd yn y ' *Traethodydd* ' (1848). Ymddangosodd yr erthygl yn ddienw, ond priodolir hi mewn rhifyn diweddarach (1880) i Walter Pryse Sylfet (" diweddar fyfyriwr o Goleg Trefecca." Ymof. 1894. tud. 178). Ceir ynddi ddisgrifiad o Davis " yn Ngyfarfod Mawr Castellnedd " . . . " gwedi i Mr. Dafis sefydlu ei gymeriad yn marn y wlad, dyweder yn 1799 ". Yng nghorff y disgrifiad dywedir—

> " Pan ddechreuai lefaru er nas gellid teimlo nemawr neu ddim o attyniadau cryf hyawdledd naturiol, neu doriadau allan disymwth meddwl athrylithgar yn ceisio ysgogi dan orlwyth o fater; eto yr oedd gradd helaeth

---

[1]Gweler *Hanes Plwyf Llandyssul*, tud. 297.
[2]Mr. John Davies, Abereinon (a fu'n byw ym Mryngolau).

o dynerwch teimlad a serchawgrwydd naturiol i'w ganfod o'r dechreu. Yn fuan, esgynai ei lais i fath o wich-lais hirdônawl, tra y torai caredigrwydd naturiol tymher y llefarwr allan yn fynych mewn ffrydiau o ddagrau; ac ar brydiau, mor gadarn oedd ffrydiad gwresog y teimlad hwn, fel y cipiau lais parabliad, a thafod y llefarwr at ei wasanaeth ei hun; ac yr ymgodai i ymyl tiriogaethau hyawdledd nes gorchfygu neu yn hytrach ennill, teimladau y gwrandawwyr i fath o sobrwydd cyd-deimladol. Fel pregethwr yn meddu teimladau dwfn, calon dyner, a dymuniad cryf am leshad ei wrandawwyr, cyrhaeddodd gyfran helaeth o boblogrwydd; er y byddai yn fynych yn porthi y deall yn dda; eto tybiem mae mewn cael gafael yn yr allwedd i fyned y ffordd feraf i galonau y werin, sef drwy'r teimlad yr oedd dirgelwch ei boblogrwydd yn benaf yn gynwysedig, a hwyrach pe y buasai yr athrawiaeth a bregethai yn gywirach adsain o lais y tyst oedd yn mynwesau ei wrandawyr am angen natur dyn y buasai ei boblogrwydd yn fwy." (tud. 199-200).

Hwyrach, hefyd, y buasai ei ddawn wedi cael gwell cydnabyddiaeth yng Nghymanfa'r Bedyddwyr yng Nghaernarfon.

Honna Timothy Davies, Evesham, mab yr "Hen Ddafis", yn un o'i lythyrau (Awst 5, 1851) i Kilsby Jones, 'rwy'n meddwl, fod llawer o wallau'n yr erthygl hon,—

"Yr oedd eich cydfyfyriwr, David Evans, yn meddwl fod yr erthygl yn ddiffygiol, ac nad oedd mewn un modd yn rhoddi darlun cywir o'r dyn."

"Nis gallaf lai na meddwl fod camsyniad yn nghylch 'Cyfarfod Mawr Castellnedd'. Rhaid mai rhyw Ddafis arall oedd yno gan na ddarfu i fy nhad erioed, mor bell ag y gwn i, bregethu i gynulleidfa fawr yn Nghastellnedd. Mae fy nghof yn ffres ddigon am 1799. Rhaid mai rhyw Annibynnwr oedd." (Ymof. 1894, tud. 204).

Er hynny, sylwa Tau Gimel yn y 'Cofiant am David Davis' (1828, tud. 44—blwyddyn ar ôl marw Davis) :—

"Medi 1799 pregethodd mewn cyfarfod gweinidogion yn Llanybree a Chastellnedd, lle y cyfarfu a Mrs. Barbauld".

Tybed, ai "cyfarfod gweinidogion" Tau Gimel oedd "Cyfarfod Mawr Castellnedd" y *Traethodydd*?

Gyda golwg ar y wichlais na sonir amdani, am a wn i, y tu allan i'r *Traethodydd* a 'Hanes Plwyf Llandyssul' (a'r ddau hyn un ydynt, mi gredaf), nid amherthynol llinnell Daniel Ddu yn ei englynion o glod i'r 'Cofiant' :—

"Ei lafar a ber lifodd."

—efallai mai "Telyn Dewi" ydoedd ym meddwl y Bardd.

Gwelir yn nes ymlaen fel y mae bywgraffwyr y gellir ymddiried ynddynt yn crybwyll yn benodol am "lais gwych" David Davis yn un o'i brif nodweddion fel siaradwr. Beth bynnag, cydnebydd Walter Pryse yr ymgodai ei arwr 'i diriogaethau hyawdledd' ac iddo 'gyrhaedd cyfran helaeth o boblogrwydd' er gwaethaf ei athrawiaeth. Fel hefyd y canodd y bardd o Lanerchymedd yn ei farwnad i Davis yn Eisteddfod Castellnewydd Emlyn (1859)—

" Tywalltai hyawdledd i glyw'r gynulleidfa
Nes toddi pob calon oedd galed fel maen ",—

ac nid tystiolaeth Undodwr ydoedd hon.

Nid yw Tau Gimel yn y ' Cofiant ' yn drefnus iawn yn ei amseryddiaeth (*chronology*), ond fe'n tueddir i gredu mai'r *adeg* y dywedir fod Christmas Evans yn gwrando ar Ddavis a'i ben rhwng ei liniau yw'r un y cyfeirir ati'n y ' Cofiant '. (Tud. 26)—

" Yn yr Eglwysi cyn ac oddeutu yr amser hwn, bu Mr. D yn dra llwyddiannus, a llaweroedd a unasant a'r Eglwysi. [Ai dyma'r ' diwygiad ' yn y Llwyn ?] Ond yn wir nid oedd, tra y parhaodd nerth ei ddawn, yn fyr o fod yn llwyddianus iawn ; ond yr oedd amserau yn ei weinidogaeth pan yr oedd yn hynod yn ei lwyddiant, fel yr aeth sôn am dano drwy y gwledydd, ac meddant wrthyf ' Dafis Castell-Hywel ' oedd yn mhob genau."

Eto, dadlau rhai fod yna draddodiad yn y gymdogaeth mai pregethwr sal oedd. Er i mi dreulio bore oes yn y Llwyn ni chlywais erioed son am hyn. Os oes yna draddodiad yn awr, ai o ' Hanes Plwyf Llandyssul ' y mae wedi tarddu ?

Ac yma mi alwaf ' ŵr mawr yn Israel ' i dystio'n ei erbyn. Yr oedd y Parch. Thomas Thomas yn dair blwydd oed pan fu farw Davis, a'i rieni'n byw'n y Fadfa gerllaw Castellhywel. Treuliodd ei oes yn y gymdogaeth ; yr oedd yng nghyfrinach yr eglwysi, ac yn ŵr a symudai ymysg y werin. Os oedd yna draddodiad o'r fath buasai ef yn sicr o'i glywed. Yr oedd hefyd yn hanesydd y gellir ymddiried ynddo, yn pwyso ei eiriau gyda chywirdeb y *mathematician*. Anodd cael tystiolaeth sy'n fwy cryf, a dyma hi—

" Yr oedd hwn [" Yr Hen Ddafis "] yn boblogaidd iawn fel pregethwr, ac yn alluog fel bardd ac ysgolfeistr." (Ymof. 1902, tud. 31).

Dyna'r syniad hefyd amdano'n rhan uchaf y sir ac ymhlith iawnffyddwyr. Fel hyn yr ysgrifenna Rheithior Llangeitho yn ei erthygl yn y *Traethodydd* (1900) ar ' Philip Pugh a'i Amserau '—

" Ni lwyddodd y seraph tanllyd Daniel Rowland i sefydlu yr un achos o Langeitho i Dwrgwyn, ryw bellder o ugain milldir. Yr oedd gweinidogaeth y Parchn. Jenkin Jones, Llwynrhyd-Owain, David Lloyd, Brynllefrith, a David Davies, Castellhywel yn diffodd tân Llangeitho."

Fel pregethwr poblogaidd, gyda chorff mawr lluniaidd, llais gwych, ac yn feistr hollol ar iaith ei fam, ond ar adegau, yn enwedig tua diwedd ei oes, yn esgeulus ym mharatoad y bregeth ac yn rhy barod i ddibynu ar ei allu i siarad yn ddifyfyr, y darlunir ef gan y Prifathro Alexander Gordon yn y ' *Dictionary of National Biography* ', y Parch. R. Jenkin Jones yn y ' *Dictionary of Education* ', ' *Cymru* ', etc., a'r Prifathro Walter J. Evans yn ' *Lloyd Letters* '. Seiliant eu barn ar y marwgof yn y *Monthly Repository* 1827. (Tud. 692—695) o law ' gwr dysgedig ',—yn ôl Tau Gimel, sy'n rhoi hefyd dalfyriad ohono'n y ' Cofiant '. Pwy oedd ' y gwr dysgedig ' hwn ? Ni wn, ond credaf mai Dr. Thomas Rees (mab Josiah Rees, Gelli-

onnen) a fu'n gydfyfyriwr â Timothy Davis ydyw. Yr oedd Dr. Thomas Rees ar y pryd yn ysgrifennydd y *Presbyterian Board* yn Llundain. Rhoddaf y marwgof yn y Saesneg fel na bo cyfieithu'n ei newid mewn un modd—

> "As a preacher Mr. Davis possessed uncommon powers. His mind was clear and capacious ; he usually took a comprehensive view of his subject, and he was generally very happy in the arrangement of his thoughts. When he took pains in the study and delivery of his sermons his pulpit eloquence was remarkably striking and effective. His appeals to the understandings, to the consciences and to the feelings of his audience were at such times resistless. These excellencies were, however, mingled with some defects. His compositions and delivery frequently wanted the correction and polish of a cultivated taste. The character of his auditors who were for the most part small farmers and labourers and his confidence in his extemporaneous command of language rendered him too often careless in his preparations of his public discourses. His pathos, which was among his chief excellencies and acquired great power from the rich and deep tones of his fine voice, was sometimes pushed to an extreme which greatly weakened its effect. His favourite topic was the love of God to his creatures, and this was the theme on which he displayed his eloquence to the greatest advantage."

A oes eisiau dweud rhagor? Dyma dystiolaeth un a oedd yn gydoeswr—un a oedd wedi gweld ei fywyd ar ei hyd ; yn cael ei difynu gan Dau Gimel a oedd yn gyd-weinidog a Davis yn Sir Aberteifi, ac yn olynydd iddo'n y Ciliau, yn ysgrifennydd ei 'Gofiant' hefyd flwyddyn ar ôl ei farw. Pa draddodiad, pe bai un, neu grybwylliadau diweddarach gan ddynion dieithr a dynion dod, a all sefyll yn wyneb hyn? Yn ddios, dyn mawr ydoedd Davis Castellhywel, mawr ei gorff, ei feddwl, ei ddawn a'i gymeriad, mawr fel pregethwr ac fel Cristion.

Dylanwad y Nadolig.

(STORI I'R PLANT.)

Gan Mrs. A. Rees, Llanelli.

Diwrnod cyn y Nadolig ydoedd, ac yr oedd rhin a rhamant tymor y Nadolig yn yr awyr.

Yn un o fythynnod y pentref, bwthyn a adnabyddid wrth yr enw "Gwynfa", yr oedd Nesta, merch fach ddeuddeg oed, yn byw gyda'i thad a'i mam. Yn union ar ôl cinio dywedodd ei mam wrthi, "Yr wyf am i chwi, Nesta, fynd a chacen Nadolig a *mince pies* i'ch mamgu erbyn yfory. Gwell i chwi gychwyn ar unwaith am fod y dydd yn fyr a'r ffordd yn faith".

Yr oedd mamgu Nesta'n byw'n y "Caban Gwyn"—bwthyn tô

gwellt ar oror bellaf rhos eang a ymestynnai i'r pellter draw. Yr oedd dwy ffordd i fynd o'r pentref at y bwthyn,—un dros y ffordd fawr, a'r llall dros lwybr a arweiniai trwy ganol y rhos. Gan fod y llwybr dros y rhos yn fyrrach, dyna'r ffordd a ddewisai Nesta bob amser. Er hynny, cyn cyrraedd y rhos yr oedd yn rhaid iddi deithio'r ffordd fawr am ryw hanner milltir o'r pentref.

Atebodd Nesta, " Rhaid i fi gael rhyw gwmni, mam."

" Daw Carlo y ci gennych." Ebr y fam.

" O, daw Carlo, mi wn," meddai Nesta, " ond hoffwn gael cwmni rhyw ferch yn ogystal. Tybed, a ddaw Lil Owen gennyf? Y mae hi'n gwmni heb ei hail ".

" Gwell i chwi fynd i ofyn iddi," meddai'r fam.

Ar unwaith rhedodd Nesta i gartref Lil i ofyn am ei chwmni. Siriolodd Lil, oherwydd yr oedd yn falch o gael esgus i fynd i rywle oddicartref, am fod ei mam wedi crynhoi pentwr o gyllyll a ffyrc a llwyau iddi i'w glanhau erbyn trannoeth. Brysiodd y ddwy ferch yn ôl i gartref Nesta.

Paciwyd y gacen a'r *mince pies* yn ofalus mewn papur gwyn glân, ac fe'u gosodwyd mewn basged. Cymrodd Nesta'r fasged, a chychwynnodd ar unwaith yng nghwmni Carlo a Lil.

Yr oedd Carlo'n llawn cyffro. Hoffai'n fawr gael mynd allan gyda'i feistres ieuanc. Rhedai'n ôl ac ymlaen, a neidiai i fyny at Nesta'n awr ac yn y man, gan gyfarth ei lawenydd. Cyn hir cododd garreg i fyny o'r heol, rhedodd a hi'n ei geg, ac a'i gosododd i lawr wrth draed Nesta, gan ddisgwyl iddi ei thaflu ymlaen, ac y cai yntau redeg ar ei hôl. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r garreg. Ymddangosai Carlo fel pe bai'n cael sbort anghyffredin. Tystiai Lil ei fod yn chwerthin. Nid hawdd i neb beidio â chwerthin yng nghwmni Lil. Yr oedd ei chwerthin calonnog hi'n heintus.

Wedi cyrraedd y rhos rhedai Carlo o fan i fan, gan wthio ei drwyn i bob twll a welai'n y ddaear er mwyn gweld a oedd cwningen yn llechu yno. Weithiau crwydrai ymhell oddiwrth y ddwy ferch, ac yna carlamai'n ôl drachefn.

Trwy ganol y rhos rhedai afon fechan, ac yn ei chroesi yr oedd pont o ddwy astell ac un ganllaw bren iddi. Ymhen tipyn daeth y cwmni bach at y bont, a chan sefyll arni, taflasant gerrig i'r afon er mwyn gweld Carlo'n llamu ar eu hôl. Cyn hir dywedodd Lil, " 'Rwy'n credu y galla' i neidio dros yr afon yma'n rhwydd ".

" Na. Gwell i chwi beidio â threio, rhag ofn i chwi syrthio i'r dŵr," atebodd Nesta.

Ond heb ragor o siarad rhedodd Lil i lawr gyda glan yr afon i chwilio am y lle rhwyddaf i groesi. O'r diwedd cafodd le wrth ei bodd, a dyna hi'n neidio i'r lan arall yn llwyddiannus, a mawr oedd ei boddhad. O weld Lil yn neidio mor rhwydd cododd chwant ar Nesta wneud yr un peth. Cerddodd yn hamddenol ddigon at

y man lle y croesodd Lil. Yna rhoes y fasged ar y ddaear ychydig bellter o lan yr afon. Wedyn neidiodd hithau drosodd yn ddiogel.

Pan oedd y ddwy gyfeilles yr ochr arall i'r afon, yn llongyfarch ei gilydd, ac yn ystyried eu bod wedi cyflawni gwrhydri, aeth Carlo i weld beth oedd yn y fasged, gan roddi ei bawen ar ei hymyl a gwthio ei drwyn iddi. Syrthiodd y fasged ar ei hochr, a'r peth cyntaf a welodd y ddwy ferch ydoedd y gacen yn rholio at lan yr afon. Rhoes Nesta ysgrech annaearol, ac yn ei gwylltineb neidiodd yn ôl at y lan arall, heb sylweddoli fod y geulan yn uwch na'r un y safai arni. O ganlyniad disgynnodd Nesta'n y dŵr, ond llwyddodd i ddal y gacen cyn rholio ohoni i'r afon. Yn ffodus, nid oedd yno ddŵr trwm ar y pryd, am fod y tywydd yn sych.

Teimlai Lil yn flin amdani'n ei chyflwr annedwydd. Eto ni allai lai na chwerthin yn ddistaw bach pan welodd hi'n disgyn yn y dŵr a'r trochion yn tascu'n ffluwch o'i hamgylch. Ymddangosai Carlo hefyd fel pe mwynhai yntau'r olygfa. Rhedai yn ôl ac ym mlaen ar y geulan, gan chwerthin yn ei ddull ei hun. Yna, dan gyfarth yn fyddarol, neidiai dro ar ôl tro i'r afon, gan greu rhagor o drochion, ac ymddangosai fel pe bai am ddweud wrth Nesta, " Twt, paid â hidio oherwydd fod dy draed yn wlyb. Nid yw hynny'n ddim. Edrych ar y sbort a gaf fi wrth splasho a sloshan."

Cyn gynted ag y medrai rhedodd Lil dros y bont i'r man lle'r oedd Nesta. Cymrodd y gacen o'i dwylaw, a fe'i cynorthwyodd i ddringo'r geulan. Fel bollt ar ei hôl y neidiodd Carlo. Yna dodwyd y gacen yn ofalus yn y fasged. O'r fan honno i'r " Caban Gwyn " pur anghysurus y bu'r daith i Nesta, am fod ei thraed yn wlyb diferol. Cerddasant gyflymed ag y medrent heb ragor o chwarae.

O'r diwedd, wedi iddynt gyrraedd y " Caban Gwyn ", gwnaeth yr hen wraig, a oedd yn falch iawn eu gweld ac yn wir ddiolchgar am y gacen a'r *Mince Pies*, i Nesta ddiosg ei hesgidiau a'i hosannau, a thra'r oeddynt yn sychu, rhoes y famgu bâr o glocsiau iddi i'w gwisgo. Paratodd hefyd bryd o dê, a thaflodd asgwrn i Carlo, ond ni allai Carlo fwynhau'r asgwrn, oblegid ysai am gael gafael ar y gath a orweddai allan o'i gyrraedd. Tynnodd yr hen wraig y ford gron tu fewn i'r simne lwfer at y tân mawn anferth a wreichionnai, a gosododd gadair Nesta mor agos ag y gallai at y tân, ac wrth yfed y tê poeth yng ngwres y tân mawr teimlai Nesta'n gynnes a chysurus.

Pan nad oedd yr hen wraig yn edrych pwyntiai Lil ei bys at y clocsiau a oedd fel badau ar draed Nesta, a gwenai o glust bwygilydd. Tipyn o orchest hefyd ydoedd i Nesta beidio â thorri i chwerthin.

Wedi i'r hosannau a'r esgidiau sychu, dywedodd y famgu wrthynt mai gwell iddynt gychwyn yn ôl ar unwaith rhag ofn i'r nos eu dal.

Cychwynasant yn ddioed, ac eisoes yr oedd cysgodau'r hwyr yn disgyn dros y rhos unig. Nid oeddynt yn rhy hapus. Wedi cerdded ychydig bellter, dywedodd Lil, " Onid yw'r rhos yma'n unig a distaw, heb sŵn dyn nac anifail i dorri ar y distawrwydd ? " Teimlai Nesta hynny hefyd, ond ni ddywedodd ddim. Cerddent yn gyflym. Rhedent ar adegau. Yr oedd yn amlwg na hoffai Carlo'r tywyllwch ychwaith, oherwydd cadwai'n dyn wrth ochr Nesta fel ped ofnai ymosod o breswylwyr y tywyllwch arni.

Cyn iddynt gyrraedd y bont bren safodd Carlo'n sydyn gan godi ei glustiau a gwrando a ffroeni. Ofnai'r ddwy ferch ei fod yn ffroeni rhyw wrthrych annymunol na welent hwy'n y gwyll. Cydiodd Lil ym mraich Nesta heb ddweud yr un gair. Curai eu calonnau'n orwyllt, a phrin y medrent anadlu. Yn sydyn clywsant sŵn clychau'n canu'n dyner yn rhywle'n y pellter, ac yn y man clywsant fiwsig perseiniol yn torri ar ddistawrwydd llethol y rhos. Gadawodd Lil fraich Nesta'n rhydd, a dywedodd mewn syndod :

" Dyna fiwsig melys, Nesta ! O ba le y daw ? "

" Wn i ddim, wir, ond y mae'n hyfryd."

" Tybed, ai'r Tylwyth Teg sydd yn canu ? "

" Na, ni chredaf mai miwsig y Tylwyth Teg ydyw."

" Dywed rhai fod y Tylwyth Teg yn dod allan i ganu a dawnsio mewn mannau unig yn y nos."

" Mi wn fod llawer yn credu hynny," meddai Nesta, ac yn sydyn daeth iddi *brain wave*, a dywedodd, " Nos cyn y Nadolig ydyw. Yfory ydyw dydd pen blwydd Iesu Grist. Tybed, a ydyw'r angylion yn disgyn o'r Nef heno i ganu ar y ddaear, ac i siarad â'r bugeiliaid sy'n gwylio eu praidd liw nos, fel y gwnaethant adeg ei eni ? . . . A beth am y Seren ? Tybed, a ydyw'r Seren ddisglair yn ymddangos yn y dwyrain heno, fel yr ymddangosodd gynt i arwain y doethion at grud y baban Iesu ? A welwch chwi ryw seren ddisglair, Lil?

Edrychai'r ddwy'n dreiddiol i'r ffurfafen, ac yn y man dyma Lil yn gwaeddi, " Dacw hi ! " gan bwyntio ei bys at seren dan-beidiach na'r lleill. Gwelodd Nesta'r seren hon hefyd, a phenderfynodd mai Y Seren ydoedd, a'i bod yn ymddangos heno oherwydd mai noson cyn y Nadolig ydoedd.

Teimlai'r ddwy rhyw swyngyfaredd neulltuol yn yr awyrgylch.

" Y mae mwy o ramant yn perthyn i'r Nadolig na feddyliais i erioed," meddai Lil. " Ond sut y daethoch chwi, Nesta, i wybod am y pethau hyn ? "

" Onid ydych wedi darllain eich Beibl erioed, Lil ? " gofynnodd Nesta.

" Wel, onid ydych wedi bod mewn gwasanaeth crefyddol erioed

" Nac ydwyf. Nid oes neb yn ein tŷ ni'n darllain y Beibl."

" Wel, oni chlywsoch eich mam yn sôn am enedigaeth Iesu ? "

" Naddo erioed."

neu'n yr Ysgol Sul ? "

" Nac ydwyf," meddai Lil, " ond hoffem fynd er mwyn clywed rhagor am y Beibl ac am Iesu a Duw."

" Dowch gyda fi'r Sul nesaf, Lil . . . ond nid oes eisiau aros hyd y Sul o ran hynny. Y mae gwasanaeth yn y Capel bore yfory. A hoffech chwi ddod ? "

" Hoffwn yn fawr " ydoedd ateb Lil.

Dilynai'r miwsig swynol hwy o hyd. Ymddangosai Carlo fel pe blinai'r canu ef yn enbyd. Yn awr ac yn y man codai ei ben mewn protest, a daliai ei geg i fyny'n syth i'r awyr, gan udo'n ddolefus.

Cyn hir cyrhaeddwyd y ffordd fawr. Ni chlywid y canu mwyach. Chwyrnellai cerbyd ar ôl cerbyd heibio iddynt, a gwelai Carlo siawns am sbort unwaith eto. Cyfarthai a rhedai'n wyllt ar eu hôl, gan geisio gafael yn yr olwynion.

Cerddodd y ddwy'n ddistaw a synfyfyriol hyd nes cyrraedd " Gwynfa ". Rhuthrodd Carlo i'r gegin o'u blaen, ac yn ei falchter bu bron a thaflu'r ford fach i lawr ar ben y gath.

Adroddodd y ddwy ferch yr hanes rhyfedd, a dywedodd mam Nesta wrthynt : " Ydyw. Y mae'n ddydd pen blwydd Iesu Grist yfory. A wyddoch chwi ei fod yn disgwyl anrhegion oddiwrthych?"

" Pa fath anrhegion ? " gofynnodd y ddwy'n awyddus.

" Cadw Ei Orchmynion. Parchu Ei Ddeddfau. Byw ar Ei Ddelw, a'i Garu," atebodd y fam.

Yna aeth Lil adref i ddweud yr hanes. Gwawdiai pawb yno. Chwarddodd Tom ei brawd yn uchel, a dywedodd, " Angylion, wir ! Sŵn canu o Eglwys Sant Ioan ar y bryn draw a glywsoch. Y mae'r gwynt yn chwythu o'r cyfeiriad hwnnw heno. Gyda golwg ar y seren—Gwener ydyw enw yr un a welsoch. Y mae'n od o danbaid ers sawl noson. Yn wir, y mae Nesta wedi dweud rhyw shiboleth rhyfedd wrthyt heno."

Ond fe gafodd *ffydd* Nesta fwy o ddylanwad ar Lil nag *anffyddiaeth* Tom. Bore trannoeth gwelid hi yng nghwmni Nesta'n mynd i'r Capel, a chafodd fwynhad mawr yno. Cyn hir yr oedd yn un o'r merched bach mwyaf selog yn y Capel ac yn yr Ysgol Sul, a bu ei hesiampl yn foddion i ennill y teulu i gyd o blaid Iesu Grist a'i egwyddorion.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

SAFON III (*o 12 oed i fyny*).

Am Fis Rhagfyr.

Trefnwyd gan Mr. D. Emrys Rees, B.Sc. a Mr. T. Bryn Jones, B.Sc.

A.—*Gwers.* Darllener Pennod VI o "Hanes Iesu i Blant" (T. O. Williams, M.A.) yn fanwl ac yna ateber y cwestiynau canlynol.

B.—*Cwestiynau.*

Pa effaith a gafodd pregethu Ioan ar y wlad? Pwy a dybiai'r bobl oedd Ioan? Ym mha le yr oedd Iesu yr adeg hon? Pa faint o amser a aethai heibio oddi ar pan glywsom hanes Iesu o'r blaen yn y Testament Newydd? Ym mha le yr oedd bryd hynny? Faint oedd ei oed yn awr? Pa beth a wyddai Iesu am ei wlad? Pa beth a wyddoch o hanes Judas y Galilead (gwêl Actau v. 37)? Pwy ddwy iau oedd yn llethu'r wlad yr adeg honno? Pa beth a bwysai ar feddwl Iesu bryd hyn? Am ba beth yr hiraethai? Pa beth oedd ystyr Teyrnas Dduw i Iesu? O glywed am bregethu Ioan pa awydd a gododdd yng nghalon Iesu? Pa beth a wnaeth Iesu o ganlyniad? Pa beth a wnaethai Ioan heblaw pregethu? Pa beth a berai i'r bobl dyrru at Ioan? Paham y ceisiai Ioan ddiwygio'r bobl? Pwy a feddyliai llawer o bobl y wlad oedd Ioan? Sut y gwyddom hyn? Pa beth oedd ateb Ioan i'r cenhadau a ddaeth ato i'w holi pwy ydoedd? Pa fath ffyrdd oedd yn y wlad yr adeg honno? Pa beth a wneid pan ddeuai gŵr mawr heibio? Pa beth oedd neges Ioan? A oedd ateb Ioan wrth fodd y cenhadau? Pa beth a holasant ymhellach iddo? Pa beth oedd ateb Ioan? I bwy y perthynai'r swydd o ddatod carrai'r sandalau? Pa beth felly oedd ystyr ateb Ioan? Pa beth oedd yn rhaid i'r bobl ei wneuthur cyn y bedyddiai Ioan hwy? A ddaeth Iesu ato i'w fedyddio? Pa beth oedd y gwahaniaeth rhwng Iesu a'r bobl eraill a aethai i'w bedyddio? A oedd Ioan yn fodlon bedyddio Iesu? A fedyddiodd Ioan ef? Pa ddau beth a ddigwyddodd pan oedd Iesu yn y dŵr? Pa beth a gred rhai pobl a ddigwyddodd I Iesu yr adeg y cafodd ei fedyddio? Pa beth oedd arwyddocâd y bedydd i Grist? A gredai Iesu ei fod wedi gwneud yn iawn drwy gymryd ei fedyddio? I ba le yr aeth Iesu wedi ei fedyddio? Am ba faint o amser y bu yno? Pa beth a wnaethai yno? Paham y dewisodd y diffeithwch i gilio iddo? Pa gwestiynau a holai iddo ef ei hun yno? Pa beth oedd dyhead y genedl? Pa beth oedd y demtasiwn i Iesu? Am ba beth y gweddiai? Sut y teimlai Iesu ar ddiwedd ei dymor yn y diffeithwch?

C.—*Dysgu ar gof*: Luc iii, 4—6.

Ein Gŵyr Mawr.

XII.—Y PARCH. WILLIAM JAMES, B.A., Y.H.

Anodd mesur a phwyso dyn oni byddwch yn ei adnabod drwodd a thro. Ni ddisgwylir artist i dynnu llun dyn heb ei weld. Eto y mae dyn yn adnabod rhuddin dyn megis wrth reddf. A defnyddio gair Cymraeg da, medrir 'synhwyro' cymeriad o leiaf, a dyna a wnaf i. Nid oes gennyf ond argraffiadau plentyn ohono. Diddorol a fuasai gwybod 'dewis' rhywun arall. Ni wnai, serch hynny, ond dangos trend meddwl y dewiswr. Ni chlywais i yr un o'r gwŷr mawr hyn yn y pulpud, ag eithrio R.J.J. a John Davies. Carwn fod wedi clywed Gwilym Marles yn dân i gyd, Hathren a'i barabl ddihidio, T.T. urddasol yn torri'i eiriau'n fyr fyr, chwedl rhywun, a William James a chwmpas i'w feddwl. Eto y mae i bob colled ei hiawndâl. Collais i y fraint am fy mod yn rhy ifanc.

Ni wn a ydyw dylanwad ardal fach a choleg bach i'w deimlo ar feddwl dyn. Ofnaf ar ambell dro bod ynddynt duedd i grebachu meddwl. O leiaf medrir teimlo dylanwad mawr ar fywyd bob amser. Perigl yw i ddyn 'sefyll' oni byddo wedi teimlo rhyw orfod yn ei gymell i astudio 'mapiau mawr'. Credaf y medrid teimlo dylanwad Martineau a Thayler ar feddwl naturiol fawr William James. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Cofir yn dda amdano. Talp o ddynoliaeth fraf—corff cadarn, trwm, a braidd yn afrosgo; nid rhyw frwynen eiddil ond corff braidd yn rhy drwm i'w les ef ei hun; a'i wyneb llydan a'i lygaid treiddgar yn siarad cyfrolau. Ni fedraf i feddwl am William James heb gofio am ddireidi R. C. Jones yn adrodd storiau am Rydypark a dyddiau'r coleg. Gyda llaw yr oedd llawer mwy o ddynoliaeth a dyfnder meddwl yn R.C.J. nag a feddylir yn aml. William James a roes y "C" yn ei enw, ac yntau'n ennill y blaen arno gan dorri'i enw yn Rees Cribin Jones yn hytrach na Rees Clotas Jones fel yr awgrymai William James mewn direidi.

Ganwyd William James yng Nghamnantfach, Pontshân, Llandysul, Ebrill 13, 1848, a gwyddai felly am etholiad '68, y troi allan o'r ffermydd ac o'r Llwyn. Gorfod i'w rieni ymadael o Gamnantfach, ond yr oedd gormod o ysbryd rhyddfrydiaeth a chwarae teg yn John James i droi allan neb o'i ddeiliaid ef er cael lle iddo ef ei hun a'i deulu. Gwell oedd ganddo gefnu ar ei hen ardal na gwneud.

Yr oedd William James felly dan ddylanwad Gwilym Marles ac ysbryd '68 yn ei galon. Y mae melinau Duw yn malu'n fân. Erbyn heddiw y mae'r rhôd wedi troi, a merch i William James yn byw yng Nghamnantfach, ond fod yr enw wedi newid gyda'r amser yn Garthowen, fel enw Jacob yn Israel slawer dydd.

Cafodd ei addysg yng Ngholeg bach Pontshân dan T.T. ac aeth i Goleg Caerfyrddin yn bymtheg oed, a dyma ddyddiau'i goleg,—Caerfyrddin (1863-6) ; Manchester New College, Llundain (1866-9) ; Edinburgh (1869-70) ; gan raddio yn B.A. Llundain yn 1871.

Yr adeg hon torrodd iechyd R.J.J. lawr a gorfu arno ymddiswyddo a rhoddwyd galwad i William James i ofalu am Hen-Dy-Cwrdd, Aberdâr yn 1873. Bu yma am chwe mlynedd ond gan fod R.J.J. wedi cael adferiad rhoes ei le yn ôl iddo a daeth i fugeilio Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa, a Llandysul yn 1879. Ni fu yma ond am wyth mlynedd cyn i'w iechyd wanhau, ac yntau tan orfod cymryd seibiant hir. Gadawodd y pulpud gan droi i fyd masnach a llwyddo, yn well nag wrth bregethu hwyrach. Er rhoi gofal y pulpud i fyny ni pheidiodd a phregethu na gweithio dros ei enwad. Bu'n ysgrifennydd y Gymdeithas Undodaidd Gymraeg o 1894 hyd ei farw yn 1907.

Merchant-preacher y galwai T.T. ef yn chwareus.

Ni chyhoeddodd lawer heblaw pregeth ar 'Grefydd Cymru Fydd' (1895), golygu ac ysgrifennu llawer o Wersi ar Fywyd Iesu Grist (1897-1901), yr esboniad goreu a'r unig esboniad a gyhoeddodd y Gymdeithas erioed ; a'i erthyglau i'r Ymofynnydd megis Nyth y Frân, a chofiaf yn dda amdanynt,—

> "Y waith hon hi wnaeth nyth dda—yn y drain
> Heb un ŵy drwg yma :
> Dydd a nos eistedd a wna
> Ond Duw ŵyr pryd deora."

Nid oes ofod i sôn amdano fel ysgolfeistr (1873-1883) ; fel arholwr yng Ngholeg Caerfyrddin (1882-7) ; fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Sir Llandysul ; fel Ynad Heddwch a dyn cyhoeddus ond er dangos lawned oedd ei fywyd ymhob cyfeiriad.

Nid yw hynyna ond manion, ond caraf feddwl amdano fel y meddwl mwyaf golau a rhyddfrydig ym mhulpud ei enwad yn ei ddydd. Medrai roi cyfeiriad newydd i feddwl ei enwad am ei fod yn llinach Gwilym Marles a'r hen gedyrn gynt. Er ei fod yn rhy agos atom i basio barn derfynol arno credaf iddo ddwyn dylanwad meddwl mawr Martineau yng nghamre Gwilym Marles i'w enwad a'i ardal. Ni wn i am wreiddioldeb ei feddwl ond gwn fod ganddo feddwl diwylliedig a chalon fawr ; gwn ei fod yn ŵr cefnog ac annibynnol o feddwl ac ysbryd ; yn ysgolfeistr rhagorol a phregethwr dawnus. Edrychid arno fel arweinydd diogel ym myd gwleidyddiaeth ac addysg, a chofiwn ninnau amdano fel dyn mawr ymhob ystyr ac fel gŵr bonheddig. G.

[Dyma fi wedi cywiro fy addewid, ac wedi ysgrifennu am yr olaf yn y gyfres. Gobeithio y gwna arall gymwynas gyffelyb â gwŷr eraill. 'Nid da rhy o ddim? G.]

"Pwy ydyw'r Dyn Hwn?"

Ar hwyrddydd teg, ymhell yn ôl yn y gorffennol, pan oedd afwynau llywodraeth adran helaeth o'r byd yn nwylo ymerodraeth ormesgar Rhufain, a thra'r oedd yr hen genedl Hebreig –eisoes ymron wedi ei gwasgaru i'r pedwar gwynt gan ormes a gorthrwm—ym mhryffwnt ei disgwyl am ddyfod o'i heneiniog waredwr a rhyddhawr, gwelid tyrfa, Iddewon ac eraill, hen ac ieuainc, wedi ymdyrru mewn cornel yn un o heolydd dinas fawr yn y Dwyrain. Naturiol ydoedd i'r sawl a elai heibio i'r fan honno, ar yr hwyrddydd hwnnw, gasglu fod yno rywbeth anarferol wedi digwydd—damwain hwyrach. Yn sicr, yr oedd yno rhyw wrthrych rhyfeddol yn tynnu sylw. Pa beth, tybed? Dim ond ysgerbwd hen gi a oedd wedi trengi, o newyn efallai, yn gorwedd yn dawel yn y gwter! Yn ôl yr hanes, synnid rhai, a difyrrid eraill, gan erchylltod y celain y syllid arno mor astud. Burgyn o beth, bid siŵr! Ie, â'i flewgroen mor ddiraen, a phob aelod a chymal ohono mor hyll a gwrthyrrol fel ag i herio disgrifiad.

"Ffieiddbeth!" gweiddai un hen Iddew penwyn a hir-farfog yn y dorf. "Gwelwch ei goesau, mor feinion a cheimion ydynt! A'i ben mor noeth, a'i gynffon mor ddiflew ac aflêr!"

"A'i bawennau," ebr un arall, "tebycach ydynt i draed mochyn nag i bawennau ci!"

"Mor anffurfiol ei drwyn." meddai'r trydydd, "a'i gêg agored yn debyg i eiddo blaidd rheibus!"

Ac felly ymlaen. Ond tra'r oedd disgynyddion y tad Abraham yn beirniadu fel yna, o'i ben i'w gynffon, lurgyn llonydd y craedur trancedig, wele rhyw laslanc o Iddew, heinyf ei droed a hawddgar ei wedd, yn digwydd dyfod y ffordd honno. A dacw fo ar frys yn ymuno â'r dorf ac yn dechrau holi'r bobl ynghylch achlysur y cynnwrf. Yna danghosid iddo'n wawdus y sypyn casbeth dirmygedig a orweddai yn y gwter. Mewn amrantiad, fodd bynnag, sylwodd y dyn ieuanc fod o leiaf un nodwedd o brydferthwch hyd yn oed yng nghorpws difywyd hen gi!

"Ha, wŷr frodyr!" ebr ef. "Cydymaith a chyfaill ffyddlon pwy fu hwn, tybed! Druan ohono! A welwch chwi y rhês ardderchog o ddannedd sydd ganddo? Mor ddisgleirwyn ydynt! Ie, a phob dant yn berffaith yn ei le megis cynifer o berlau ceinion wedi eu gosod yn gywrain gan ddwylo celfydd yng nghoron teyrn godidog!" . . .

Ust! Dyna ddigon! Ond sut y bu nad oedd neb eisoes yn y cwmpeini wedi sylwi ar ddannedd prydferth y ci marw? Rhaid mai y rheswm am hynny ydoedd dallineb eu meddwl a chaledrwydd

eu calon. Heblaw'r distawrwydd synn, ebe'r hanesydd, gwelid arwyddion eraill fod geiriau tirion y gŵr ieuanc, pwy bynnag ydoedd, wedi syfrdanu'r dorf o'r hynaf i'r ieuengaf—ei gydymdeimlad tyner wedi taro tant cyfatebol ym mynwes pob un a'i clywodd. Yn wir, y mae'r llygaid dwfndreiddgar acw sy'n medru canfod y prydferth, y daionus, a'r glân mewn peth a ymddengys i eraill yn ddim ond sypyn o hagrwch, drygni, ac aflendid digymysg, yn tynnu sylw pawb yn y dyrfa ac mewn amrantiad yn eu trydanu ag edmygedd—fflachiant eu pelydrau megis goleuni'r haul ar fore haf i feddyliau tywyll a chynhesant galonnau oerion y bobl !

Yn y man dacw nhw'n dechrau sibrwd y naill wrth y llall. Amlwg mai holi ei gilydd y maent parthed hunaniaeth y llanc sy'n medru sylwi mor graff a llefaru mor ddoeth ! Pwy ydyw ef ? Rhyw fardd blagurol, hwyrach, neu broffwyd, neu weledydd, wedi ei ddonio'n helaethach na neb arall yn y cylch Iddewig â llygad i weled, calon i deimlo, a hyfder i lefaru !

" Pwy, ynteu, ydyw'r dyn hwn ? " gofynnai rhai o'r henafgwyr ymysg y dorf. " O ba dref neu bentref y daeth ef yma, ac i bwy y perthyn y dyn ? Onid edwyn neb ef, neu onid oes yma neb sydd yn gwybod rhywbeth o'i hanes, a hanes ei dylwyth ? "

Oes, wrth gwrs. Ymysg y dorf y mae rhai bechgyn sydd yn gwybod amdano'n eithaf da, neu o leiaf yn tybio eu bod ; oblegid y dwthwn hwnnw yr oeddynt wedi dyfod i'r ddinas fawr allan o'r un dreflan ag yntau. Ac un o'r rheini a etyb :

" Mab i Mair ydyw, a Ioseff ei gŵr, sydd yn trigo yn Nasareth yr un fath a ninnau. Iesu yw ei enw. Ac y mae iddo frodyr, a chwiroydd hefyd. Saer coed ydyw Ioseff ei dad, ac y mae yntau yn dilyn yr un grefft. Ond gan ei fod ef yn fachgen distaw a swil, ni buasai neb yn y pentref yn dychmygu y medrai hwn weled mor glir a llefaru mor huodl ! "

" Ha, ha ! Felly wir ! " ebr un hen Iddew myfyrgar. Yna sibrydodd yr henwr rywbeth yng nghlust hen Iddew doeth arall a safai nesaf ato yn y dorf ; a dywaid yr hanesydd gwreiddiol mai hyn ydoedd perwyl ei sibrwd : " Dyma lanc dysgedig, onide ? Rhaid i ni fynd i adrodd ei hanes wrth y rabiniaid, fel y gallont gadw eu golwg arno. Diau fe ddaw'r dyn hwn yn enwog yn ein plith, ac i gael sôn amdano gan bawb ! Pwy a ŵyr ! " Proffwydodd yr hen Iddew yn gallach nag y meddyliai. Do, bu sôn mawr am " y dyn hwn " er hynny hyd yn awr.

* * *

Ffynhonnell y stori yna, wrth gwrs, ydyw hen draddodiad a aned, fel y tybir, yn nyddiau bore Cristnogaeth Iddewig. Brithir yr " efengylau " apocriffaidd â llawer o chwedlau o'r un natur. Er na honnir gan neb heddiw fod gwerth hanesyddol mewn tradd-

odiadau fel hyn, eto y maent yn dra awgrymiadol, ac y mae gwirionedd hanfodol yng nghnewyllyn pob un ohonynt. Gan hynny, o'u deall yn briodol a'u trafod yn ddoeth, gwelir fod iddynt ystyr pwysig, a haeddant astudiaeth a myfyrdod difrifol pob efrydydd. Eu hamcan cynhenid, bid sicr, ydoedd darlunio'n effeithiol dreiddgarwch Mab y Saer fel darllenwr calonnau dynion a dysgawdwr y werin yn ei oes a'i wlad ei hun, ac ânt ymhell i wneuthur hynny. A'u golygu yng ngholeuni hanes a phrofiad, adlewyrchant i raddau mwy neu lai y tynherwch hwnnw sydd wedi nodweddu dilynwyr pur, disgyblaidd, ac ymroddgar Iesu o Nasareth ers deunaw can mlynedd a mwy ! Y cyfryw ydyw dylanwad dysgeidiaeth, personoliaeth, a bywyd y Dyn Hwn ar ddinasyddion difrifol a meddylgar y byd gwareiddiedig, o bob enwad, sect, a phlaid, ac yn wir ar filoedd nad ymlynant wrth nac enwad na sect na phlaid o gwbl !

D. Delta Evans.

Priodas.

Yng nghapel Pantydefaid Hydref 29, unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog ac ym mhresenoldeb y cofrestydd, Mr. Davies, Sychdy, GWILYM EVANS, Fforest-newydd, a NANCY DAVIES, Morfa House, Llandysul. Y Nef a fendithio yr uniad hapus hwn.

Marwgofion.

Tachwedd 1, ar ôl cystudd byr, JOHN GRIFFITHS, Rhydowenfach, Llandysul, yn 85 mlwydd oed, gan adael mab, merch, brawd, chwaer a llawer o gyfeillion i weld ei eisiau. Bu am flynyddoedd yn byw yn Henbantuchaf, Capel Dewi, ac yno bu'n ddiwyd iawn yn trin ei dir ac yn ymroi dros ei deulu. Yno hefyd teimlodd oddiwrth ergydion na ddont yn aml iawn i ran dynion. Collodd ei gymar yn 1896, a rhwng y blynyddoedd 1903 a 1911 collodd bump o'i blant. Er hynny, ni chollodd ei ffydd yn naioni Duw. Ni chafodd y profedigaethau anodd ac aml hyn suro na chwerwi dim ar ei ysbryd. Yr oedd yn hoff iawn o gwmni ac ymgom, ac amheuthun iddo ydoedd mynd yn ôl i ddyddiau bore'i oes i sôn am gyfoedion a digwyddiadau slawer dydd. Tra gallodd—a chofio'r pellter o'r Henbantuchaf—dilynodd y gwasanaethau'n Llwynrhydowen yn bur ffyddlon, a charai'r ddaear o gwmpas y capel. Os bu blynyddoedd canol ei oes yn rhai blin a chaled cafodd chwarter canrif o dawelwch a diddigrwydd i orffen y daith. Bu ef a'i fab a'i ferch yn hynod gysurus gyda'i gilydd ; yr oedd yn un hawdd i gydfyw ag ef ; ni hoffai ffws o unrhyw fath, ac ni roddai ond a oedd raid o drafferth ar ei aelwyd. Bydd gan ei blant atgofion melys amdano. Buont yn ofalus iawn ohono ac yn dyner iawn wrtho. Ei briodas ef oedd y gyntaf a weinyddwyd yn hen gapel Capel y Fadfa, ac o'r Beibl a gafodd ef a'i briod ar yr achlysur hwnnw y darllenwyd yn y tŷ ddydd ei angladd. Y dydd Gwener dilynol claddwyd ei weddillion ym mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, D. A. Williams, Carmel, ac E. Griffith Jones, Capelygroes.

Dydd Sul, Hydref 23, bu farw LEWIS GRIFFITHS, Pantglas, Trecynon, yn 65 mlwydd oed. Canolig iawn fu ei iechyd ers cryn amser, a blinid ef yn fawr oherwydd methu ohono ddilyn ei alwedigaeth gyda'i gysondeb arferol. Nid oedd neb wedi tybio fod y diwedd mor agos oherwydd gwelsom ef yn wael iawn llawer tro cyn hyn ac yn dod eilwaith yn weddol iach, ond yr wythnos olaf gwelwyd nad oedd obaith bellach am adferiad y tro hwn. Hannai o deulu enwog y " Carw Coch " a theulu a fu mewn cysylltiad a'r Hen Dy Cwrdd ers blynyddoedd. Gwr tawel, dilol hollol ydoedd ac yn gyfaill trwyadl. Cyflwynwn i'w chwaer a'i ddau frawd a'r perthynasau ein cydymdeimlad llwyraf. Claddwyd dydd Mercher Hydref 26, yn y Gladdfa Gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parchn. V. M. K. James, ac E. R. Dennis.

Yn ddysyfyd rhyfedd bu farw y chwaer annwyl MARGARET JONES, Deri Park, Llandysul, dydd Mercher, Tachwedd 9, er mawr siom i'w theulu ac i gymdogaeth gyfan, a hi yn 59 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion marwol y Sadwrn canlynol, Tachwedd 12, ym mynwent Pantydefaid, lle y gwelwyd un o'r claddedigaethau mwyaf lluosog yn hanes plwyf Llandysul. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rhydderch, B.A. Pregethwyd yn y Capel gan ei Gweinidog, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Dynes garedig dros ben oedd yr ymadawedig, cyfaill ffyddlon i'r tlawd a'r anghenus, ac yn ddynes o gymeriad gwir Gristnogol. Mae hiraeth mawr ar ei hôl. Y Tad nefol a fo yn gysur i'w phriod a'i phlant yn yr argyfwng blin.

Pwyllgor yr Hydref.

Cynhaliwyd Cyrddau Chwarterol yr Hydref yn Rhydygwin ar Hydref 18 a 19. Gweler rhifyn Tachwedd o'r Ymofynnydd.

Bore dydd Mercher, Hydref 19, cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor, y Llywydd, y Parch. John Evans, B.A., Aberystwyth, yn y gadair. Cymrwyd y rhannau defosiynol gan y Parch. E. R. Dennis. Wedi araith bwrpasol gan y Llywydd trafodwyd y materion a ganlyn.

Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol. Cyfeiriodd y Trysorydd at garedigrwydd adrannau o Gynghrair y Gwragedd sy'n cynorthwyo Trysorfa'r Gymdeithas o flwyddyn i flwyddyn. Nodai nad oedd gan y Gymdeithas unrhyw hawl ar gyfraniadau oddiwrthynt, a chydnabyddai'n ddiolchgar eu hewyllys da. Dywedodd Miss Jones, Gellifaharen, ei bod hi o'r farn y gallai'r Trysorydd gyfrif ar gymorth y chwiorydd cto'n dyfodol. Apeliai'r Trysorydd at y cynulleidfaoedd ar iddynt geisio cyfrannu eu cyfran (*quota*) yn llawn.

Is-Lywydd. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. George Thomas yn diolch i'r Gymdeithas ei gyfrif yn addas i fod yn Is-Lywydd, ond datganai ei anallu i weld ei ffordd i ymgymryd â'r gwaith. Etholwyd y Parch. Simon Jones, B.A., Caerfyrddin yn ei le.

Y Bregeth. Penderfynwyd mai'r Parch. Simon Jones sydd i draddodi " y bregeth " yn y Cyrddau Blynyddol nesaf. Gofynnir iddo gymryd rhyw bwnc arbennig, o'i ddewis ei hun.

Pontypridd. Pasiwyd fod treuliau'r Ysgrifennydd i gyrddau sefydlu Mr. Alan R. Taylor ym Mhontypridd i'w talu.

Yr Ysgol Sul. Siaradodd y Parch. S. E. Bowen ar Faes Llafur ac Arholiad yr Ysgol Sul.

Cyrddau Pasg 1939. Datganwyd y gobaith y bydd cynulleidfa Gellionnen a'r Graig, Trebanos yn eu derbyn.

Llywydd y Gymdeithasfa Gyffredinol. Rhoddodd y Parch. S. E. Bowen rybudd y bydd iddo'n y cyfarfod nesaf gynnig penderfyniad ynglŷn a chroesawu Llywyddion y Gymdeithasfa o dro i dro.

Pasiwyd fod yr Ysgrifennydd yn gofyn i Dr. Rattray, y Llywydd am eleni, ymweld â Sir Aberteifi cyn gorffen o dymor ei swydd—oni bydd rhyw ddydd Sul yn gyfleus iddo, yna ar rhyw ddiwrnod arall o'r wythnos.

" Y Dyn Crist Iesu ". Apeliwyd i'r eglwysi ymdrechu gwerthu mor helaeth ag y bo modd y bregeth hon o eiddo Dr. Griffiths.

Llongyfarch. Pasiwyd danfon llythyr i'r Parch. T. L. Jones i'w longyfarch ar ei ymsefydlu'n Leytonstone ac i ddymuno'n dda iddo.

Cyrddau Sefydlu. Teimlai'r Parch. J. D. Jones y dylai'r Gymdeithas ddanfon cynrychiolydd i bob cyfarfod sefydlu yng Nghymru. Er na phasiwyd unrhyw benderfyniad, cefnogwyd yr awgrym yn wresog.

Gwasanaethau Cymraeg Llundain. Pasiwyd ein bod yn dangos cydymdeimlad â'r gwasanaethau hyn drwy ostwng pris y ' Perlau Moliant ' iddynt, os rhoddant archeb am o ddwsin i fyny o gopiau. Saif y prisiau iddynt yn 2s. 6c., 3s. 6c., a 4s. 6c.

Dafis Castellhywel. Pasiwyd danfon at gyfarwyddwr y B.B.C. i ddweud fod Undodiaid Cymru'n teimlo fod cryn sarhad wedi ei daflu ar goffadwriaeth D. Davis Castellhywel, gan y Parch. Jubilee Young, yn ei araith a ddarlledwyd o Gaernarfon.

Diolchodd y Llywydd i'r cyfeillion yn Rhydygwin am dderbyn y cyrddau.

E. O. Jenkins, *Ysgrifennydd.*

Nodion yr Eglwysi.

CAPELYGROES A CHRIBYN. Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch yng Nghapelygroes nos Lun, Hydref 31, y Parch. W. H. Jones, Rhydybont, Llanybydder yn pregethu. Yng Nghribyn cynhaliwyd y cwrdd diolchgarwch nos Iau, Hydref 27, y Parch. John Evans, B.A., Aberystwyth yn pregethu. Cafwyd cynulliadau lluosog a gwasanaethau ardderchog yn y ddau gapel.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON. Cynhaliwyd y cyfarfod diolchgarwch yn y blaenaf ar Dachwedd 9, ac yn yr olaf ar y dydd dilynol. Gwasanaethwyd yn y ddau le gan y Parch. E. O. Jenkins. Cyfeiliwyd yn y blaenaf gan Miss Jones, Lloyd Jack, ac yn yr olaf gan Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd. Caed cynulliadau lluosog a gwasanaethau da.

CAPELYFADFA A LLWYNRHYDOWEN. Gwasanaethwyd yn y cyfarfodydd diolchgarwch yn y ddau le gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul. Cafwyd gwasanaethau'n y prynhawn a'r hwyr. Cafwyd pregethau amserol iawn a chynulliadau da'n y pedwar gwasanaeth.

LLWYNRHYDOWEN. Ar Dachwedd 11 cafwyd sosial wedi ei threfnu ac o dan nawdd Cynghrair y Gwragedd. Dyma gyfarfod cyntaf y tymor, a derbyniwyd saith ar hugain o aelodau. Daeth cynulliad da ynghyd, a chafwyd noson ddymunol iawn. Aeth yr elw i drysorfa'r adran.

ALLTYPLACA. Dydd Sul, Hydref 30, cyfarfu'r gynulleidfa ar ôl y gwasanaeth i fynegi gwerthfawrogiad o wasanaeth Miss Megan Davies, Belan House, gyda'r Organ. Merch Mr. Dan Davies, ysgrifennydd y Gymanfa Ganu, ydyw, ac y mae wedi dechrau gyda'r gwaith o ddysgu i fod yn nyrs yn Ysbyty Gloucester. Cyflwynodd y Gweinidog iddi ar ran y gynulleidfa " *Dressing Case* " a " *Fountain Pen* " gyda'r dymuniadau gorau———.Dathlodd Cynghrair y Gwragedd gyfarfod cyntaf y tymor ar Dachwedd 17 mewn gwledd o dê, rhodd garedig Mrs. Williams, Dolaugwyrddion, a mynegodd Mrs. Jenkins, Y Bryn, a Mrs. Davies, Belan House,

ddiolch yr adran iddi am ei charedigrwydd. Swyddogion yr adran ydynt—Llywydd, Mrs. Jenkins, Y Bryn ; Is-Lywydd, Mrs. Bowen, Y Manse ; Ysgrifennydd, Mrs. Davies, Belan House ; Trysorydd, Mrs. Davies, Ffoshelyg. Yr oedd wyth ar hugain yn bresennol.

CAPEL-Y-BRYN. Un o organyddion y capel ydyw Mr. Llewelyn Rees, Tai Gwynion, ac am rai blynyddoedd y mae wedi llanw ei le i fodlonrwydd pawb. Ar adeg ei briodas ac mewn cyfarfod ar ôl y gwasanaeth ar Hydref 23, mynegodd y gynulleidfa ei llawenydd a'i gwerthfawrogiad o'i wasanaeth drwy ei anrhegu ag awrlais prydferth. Siaradodd yr ysgrifennydd, Mr. John Jenkins ,Tancoed, a'r Gweinidog am ei ffyddlondeb a'i serch tuag at yr achos, ac mewn geiriau pwrpasol cyflwynwyd yr anrheg ar ran y gynulleidfa gan Mr. Griffith Jones, y diacon hynaf. Y mae'n dda gan bawb wybod y bydd gwasanaeth Mr. Rees i'r gynulleidfa eto'n y dyfodol fel cynt. Dymunir y gorau iddo ef a'i briod. Cynhaliodd Cynghrair y Gwragedd gyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher, Tachwedd 23. Cafwyd gwledd o dê gan y Llywydd, Miss Thomas, Cledlyn Side, a Miss Davies, Milford House. Yr ysgrifennydd ydyw Mrs. Jones, Ffosffald, a'r Trysorydd, Mrs. Lewis, Clarence. Diolchodd y Gweinidog i'r ddwy foneddiges am eu caredigrwydd. Yr oedd 33 yn bresennol.

Y MAES CENHADOL.—Y dyddiau nesaf bydd aelodau'n heglwysi'n brysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig, a bydd arnynt angen cardiau i ddatgan dymuniadau'r tymor i ffrindiau a pherthnasau. Hyderir na bydd iddynt anghofio bod yr *India Fund* yn ceisio cyfarfod â'r angen yma. Fel hyn y darllen hysbysiad oddiwrth y pwyllgor :—

A KHASI CALENDAR for 1939 has been published. It is a sepia reproduction of one of Mrs. Baily's charming Khasi photographs, 6 x 4 inches, with a calendar below and a ribbon to hang it by—price 9d. post free 10d. or 7/- a dozen post free. Proceeds for the Indian Fund.
Danfoner archebion i ' KHASI CALENDAR ', Essex Hall, Essex St., London, W.C.2.

Da gennym glywed fod un o arholwyr y llywodraeth wedi ymweld â'r ysgol i blant bach sy dan ofal y Parch. A. Margaret Barr yn Laban, ac mor fawr oedd ei syniad am y gwaith fel y mae'r ysgol bellach i dderbyn *grants* oddiwrth llywodraeth y wlad a'r llywodraeth leol. Mewn termau gwresog canmolodd waith Miss Barr yn ei adroddiad, ac y mae'r Cynghorydd Addysg dros Assam yn dangos ei ddiddordeb personol yn y gwaith. Y mae ysgol yr Undodiaid yn torri tir newydd ac yn agor llwybrau newydd ym maes addysg Bryniau Casia.

LLUNDAIN.—Cynhelir y gwasanaeth Cymraeg yn UNITY CHURCH, UPPER STREET, ISLINGTON, N.1. ar Ragfyr 4 am 4 o'r gloch, pryd y pregethir gan y Parch. Simon Jones, B.A. Pregethir ar Ionor 1 gan y Parch. E. Griffith Jones.

Ar Dachwedd 23 cynhaliwyd cyfarfod yn Essex Hall i groesawu gweinidogion a sefydlwyd yn ddiweddar yn ardal Llundain, ac yn ei plith yr oedd y Parch. T. L. Jones, Leytonstone. Yr oedd yno gynulliad da, a threfnwyd y canu gan Miss D. Bostock, L.R.A.M. a Mr. Ceredig Jones, L.R.A.M.

CZECHOSLOVAKIA.—Y mae'r Parch. E. Rosalind Lee wedi dychwelyd, a cheir yn YMOFYNNYDD Ionor adroddiad o'i gwaith yn Czechoslovakia. Ar Dachwedd 26 yr oedd cyfanswm y *Relief Fund* yn £987 : 3 : 0. Danfoner y rhoddion i Miss Stevenson, Essex Hall, Essex Street, London, W.C.2.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.